**Cyfarfod Tasglu Pryfed Peillio**
**8 Hydref 2013**
**Aberystwyth**

**Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Ioan Evans | Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru (Arfordir Penfro) |
| Rachel Palmer | Cadwch Gymru'n Daclus |
| Mike Howe | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ann Jones | Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru |
| Martin Jones | Bees for Development |
| Lucy Rothstein | Bumblebee Conservation Trust |
| Jon Cryer | RSPB Cymru |
| Russel Hobson | Butterfly Conservation Wales |
| Maria Golightly | Kew Gardens |
| Rory Francis | Coed Cadw |
| Alan Michie | Cynllun Datblygu Gwledig Sir Fynwy |
| Francis Gellatly | FERA |
| Jenny Shaw | Cymdeithas Gwenynwyr Cymru |
| Tracey Lovering | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Adrian Jones | Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru |
| Angie Polkey | (gynt) Canolfan Gadwraeth Fferm Denmark |
| Natasha De Vere | Pollen8 Cymru |
| Caryn Le Roux | LlC – Polisi Bioamrywiaeth |
| Davey Martyn | LlC – Polisi Bioamrywiaeth |
| Medwyn Roberts | LlC – Polisi Bioamrywiaeth |
| Diana Reynolds | LlC – Rheolwr Datblygu Dyfodol Cynaliadwy |
| Kathleen Carroll | LlC – Polisi Plaleiddiaid |
| Amy Byrne | LlC – Polisi Iechyd Anifeiliaid |
| Jane Jones | LlC – Polisi Iechyd Anifeiliaid |

1. Croesawodd Caryn Le Roux yr aelodau i'r cyfarfod, a diolchodd iddynt am eu cyfraniadau tuag at lunio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio, a lansiwyd ym mis Gorffennaf. Roedd yn croesawu ewyllys dda a pharodrwydd yr aelodau i fwrw iddi i wneud tasgau ymarferol er mwyn hyrwyddo'r cynllun gweithredu.
2. Tynnodd Diana Reynolds sylw at gais y Gweinidog ar i bawb ymroi i wneud pethau, a dywedodd y byddai'r cyfarfod hwn ar ffurf cydgynhyrchiad, lle mae pawb sy'n teimlo y gall gyfrannu i'r gweithredu neu arwain ar gamau gweithredu yn cael ei annog i wneud hynny. 'Dechrau yn unrhyw le – dal i fynd i bobman'.
3. Yr eitem gyntaf ar yr agenda oedd trafod ffyrdd o weithio ac egwyddorion ar gyfer gweithredu. Ymgorfforwyd canlyniadau'r drafodaeth hon a gynhaliwyd fesul grwpiau bach mewn **Cylch Gorchwyl Drafft**.
4. Yn ystod y drafodaeth hon daeth yn glir fod nifer o bynciau'n codi yr hoffai'r aelodau eu trafod ymhellach mewn grwpiau bach.
5. Y materion oedd:
    - Gwenyn cynaliadwy – Cadw gwenyn - cynnal nythfeydd a breninesau brodorol, o ran gwenyn mêl a gwenyn bwm masnachol.
    - Ymylon ffyrdd/cyfathrebu

    - Garddio er budd bywyd gwyllt
    - Tystiolaeth, astudiaethau achos, ymchwil
6. Roedd rhai grwpiau'n barod i barhau â'r drafodaeth ymhellach gydag arweinydd y cytunwyd arno: Gwenyn cynaliadwy, Ymylon ffyrdd. Teimlai eraill y byddai gweithredu trosfwaol yn help i symud y gwaith yn y meysydd hynny yn ei flaen ar hyn o bryd: Garddio er budd bywyd gwyllt, Tystiolaeth. Cytunwyd ar gam gweithredu pellach i'r diben o adolygu Glastir.
7. Cododd nifer o gamau gweithredu o'r adborth o'r grwpiau hyn, gweler y **tabl Pwyntiau Gweithredu.**
8. Cytunwyd i adolygu'r **Cynllun Gweithredu** yng ngoleuni trafodaethau'r bore.
9. Daeth y cyfarfod i ben ar gyfer cinio. Cynhaliwyd cyfarfod dilynol gan y grŵp Gwenyn Cynaliadwy yn y prynhawn, a chynhaliwyd cyfarfod cysylltiedig hefyd yn y prynhawn i drafod App yn ymwneud â phryfed peillio (gweler **nodyn o'r cyfarfod** ar wahân).

**Tabl Pwyntiau Gweithredu:**

| **Gweithredu** | **Arweinydd** | **Partneriaid** | **Dyddiad targed (os yw'n bosib ei bennu)** |
|---|---|---|---|
| Mapio'r arbenigedd/sgiliau/grwpiau dan sylw | Gemma Light/Sean McHugh | | Cyfarfod nesaf |
| Tynnu sylw at Ganllawiau a deunyddiau cyhoeddedig | Gemma Light/Sean McHugh | | Cyfarfod nesaf |
| Datblygu'r wefan fel bod y cynnwys uchod arni | Sean McHugh (gyda mewnbwn gan Gemma) | | Cyfarfod nesaf |
| Datblygu ffrydiau ariannu – Bioamrywiaeth/Tyfu'n Wyllt/KWT | Caryn Le Roux | Maria Golightly LIC – Ansawdd yr Amgylchedd Lleol | |
| Cysylltu â strategaeth, tystiolaeth a monitro'r DU | Caryn Le Roux | JNCC, Defra, CNC, grŵp tystiolaeth PBC, Cynllun Pryfed Peillio Swyddfa'r Prif Filfeddyg | |
| Ymchwilio i gyfathrebu a brandio ar gyfer y Tasglu drwy LlC | Gemma / Caryn | | Cyfarfod nesaf |
| Rheoli Ymylon Ffyrdd – datblygu syniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a chyfathrebu | Martin Jones | Caryn Le Roux, Amy Byrne, Rachel Palmer, Ioan Evans | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwenyn Cynaliadwy – datblygu cynigion ar gyfer nythfeydd a breninesau brodorol, o ran gwenyn mêl a gwenyn bwm masnachol | Alan Michie/Jenny Shaw | Frank Gellatly, Mike Howe, Kathleen Carroll | |
| Adolygu Glastir o ran gwelliannau ar gyfer pryfed peillio, i baratoi ar gyfer yr adolygiad sydd i'w gynnal yng ngwanwyn 2014 | Mike Howe | Jenny Shaw, Frank Gellatly, Rory Francis, Jon Cryer, Russel Hobson, Ann Jones, Lucy Rothstein | |
| Cyd-gynhyrchu App Pryfed Peillio | Davey Martyn | (gweler nodyn ar wahân o'r cyfarfod) | |